

Ymateb y rheolwyr

Teitl yr adroddiad: 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol

Dyddiad cwblhau: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A1	<p>I gael y gorau o'u gwaith gyda a'u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymhell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:</p> <ul style="list-style-type: none">• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;	le	<p>Mae'r atodiad yn restr wirio mewn tair rhan, sef Strategaeth, Comisiynu a Chaffael a Rheoli Perfformiad.</p> <p>Mae'r gwaith ar ddatblygu strategaeth a gweledigaeth wedi dechrau drwy gynnal cyfarfod wyneb i wyneb ar y cyd gyda cynrychiolwyr o fentrau cymdeithasol Gwynedd ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd gweithdy</p>	Gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf.	Dylan Owen Catrin Thomas Hawis Melangell Jones Jennifer Kasina Rao

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a • mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunan-werthusiad. 		<p>a rhoddwyd y cyfle i'r mynychwyr (Mentrau Cymdeithasol, Swyddogion Cyngor a Chynghorwyr) gyfrannu at ddatblygu a chydgynhyrchu blaenoriaethau gweithredu gennym fel Cyngor. Dechrau'r gwaith yw hyn a bwriedir mynd ymlaen ymhellach mewn cyfarfod arall ym mis Hydref i ddatblygu gweledigaeth lawn ar y cyd.</p> <p>O ran yr elfennau Comisiynu, Caffael a Rheoli Perfformiad, mae sawl pwynt yn y Rhestr Wirio eisoes yn eu lle ac yn weithredol a bwriedir adeiladu ar hynny dros y misoedd nesaf. Cyhoeddwyd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddiweddar ar gyfer Gwynedd a datblygwyd hwnnw</p>		

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
			drwy drafodaethau gyda'r 3ydd sector a darparwyr eraill.		
A2	<p>A2 I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol; • yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac • yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. 	le	Bydd angen cwblhau argymhelliad A1 cyn ein bod yn gallu gweithredu ymhellach ar A2 ac A3.		<p>Dylan Owen Catrin Thomas Hawis Melangell Jones Jennifer Kasina Rao</p>

Cyf	Argymhelliad	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A3	<p>A3 Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymhell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	le	Gweler Uchod.		<p>Dylan Owen Catrin Thomas Hawis Melangell Jones Jennifer Kasina Rao</p>

A1